# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2023

DRAFT

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Neville Evans (ar gyfer eitemau 1 i 7 a 12) Carwyn Jones, Gary Pritchard, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr (yn bresennol ar gyfer eitemau 1 i 7 ac 11 i 15)<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>Pennaeth Gwasanaeth Tai<br>Pennaeth Gwasanaeth Oedolion<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Rheolwr Datblygu Economaidd (THJ) (ar gyfer eitem 15)<br>Rheolwr Adfywio (DLl) (ar gyfer eitem 13)<br>Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) (SOJ) ar gyfer eitem 12)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gwe-ddarlledu (FT) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Llinos Medi (Arweinydd), Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol), Mr Gethin Morgan (Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rheolwr Sgrwitini (AGD), Cynghorwyr Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Gwilym O. Jones, John Ifan Jones, Robert Ll. Jones, Pip O'Neill, Dylan Rees. |

---

Cyn dechrau busnes y cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n amrywio'r drefn ar gais y Prif Weithredwr a gyda chytundeb y Pwyllgor Gwaith er mwyn ystyried eitem 12 yn gynt gan fod yn rhaid i'r Prif Weithredwr adael ganol bore i fynd i gyfarfod gyda Gweinidog Llywodraeth Cymru a oedd wedi'i alw ar fyr rybudd. Cytunodd y Pwyllgor Gwaith i newid y drefn.

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni chafodd yr un datganiad o ddiddordeb ei dderbyn.

### 2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim materion i'w hadrodd.

## 3. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2023 i'w cadarnhau.

**Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2023 yn gywir.**

## 4. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref, 2023 a Mai, 2024 i'w gadarnhau.

Diweddarodd y Pennaeth Democratiaeth y Pwyllgor Gwaith ynghylch newidiadau i'r Blaen Raglen Waith a nodwyd y canlynol –

- Eitem 1 (Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd) ac Eitem 2 (Cynllun Trawsnewid Cerbydau Fflyd) sy'n benderfyniadau dirprwyedig - mae'r dyddiad cyhoeddi wedi'i newid i'r cyfnod rhwng Medi a Hydref 2023.
- Eitem 4 (Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2022/23) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod 24 Hydref 2023 y Pwyllgor Gwaith.
- Aildrefnwyd Eitem 5 (Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2023-28) o gyfarfod 26 Medi 2023 y Pwyllgor Gwaith i'w gyfarfod ar 24 Hydref 2023.
- Eitem 6 (Cais awyr dywyll rhyngwladol ar gyfer rhan dde-orllewinol Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn (AHNE) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod 24 Hydref y Pwyllgor Gwaith.
- Eitem 12 (Sylfaen y Dreth Gyngor 2024/25) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 28 Tachwedd 2023.
- Eitem 14 (Moderneiddio Cyfleoedd Dydd: Anableddau Dysgu – Ardal Caergybi) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 28 Tachwedd 2023.
- Eitem 26 (Moderneiddio Cyfleoedd Dydd: Anableddau) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror 2024 (*Cadarnhawyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr eitem hon yn berthnasol i'r Ynys gyfan yn hytrach nag eitem 14 sy'n benodol i Gaergybi)*
- Eitem 29 (Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2024-2054) fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod 19 Mawrth 2024 y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei diweddaru am y cyfnod Hydref 2023 – Mai 2024 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 5. MONITRO CERDYN SGORIO - CHWARTER 1 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn a Thrawsnewid oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid yr adroddiad a oedd yn portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion llesiant ar ddiwedd Chwarter 1 2023/24. Roedd yn galonogol nodi bod 89% o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio uwchlaw neu o fewn 5% o oddefgarwch i'w targedau ar gyfer y chwarter. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer o straeon cadarnhaol mewn perthynas â dangosyddion NERS, nifer y cartrefi gwag sy'n cael eu defnyddio unwaith eto, Gwasanaethau Oedolion, rheoli gwastraff, digartrefedd, addasiadau drwy'r grant cyfleusterau i'r anabl a chynllunio, yn benodol dangosyddion 35 a 37 (canran y ceisiadau cynllunio a benderfynir ar amser a chanran yr achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod yn y drefn honno). Mae'r dangosyddion Perfformiad Iechyd Corfforaethol a'r dangosyddion gwasanaeth cwsmeriaid hefyd yn perfformio'n dda, ac ar ddiwedd y chwarter

DRAFT

cyntaf mae'r Cyngor yn Wyrdd ac ar y targed o ran rheoli presenoldeb gyda 2.1 diwrnod wedi eu colli i absenoldeb fesul FTE yn y cyfnod. Mae nifer fach o ddangosyddion yn tangyflawni sy'n cynnwys Dangosydd 09 (canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt ar amser) lle mae'r perfformiad yn erbyn y targed yn 84%. Er bod hyn yn welliant ar y perfformiad ar gyfer yr un chwarter y llynedd, mae'r targed wedi cael ei godi o 80% i 90% ac felly'r sgôr yw Ambr ar gyfer chwarter cyntaf 2023/24. Bydd y perfformiad ar gyfer hyn a dangosyddion 29 a 30 mewn perthynas â Gwasanaethau Tai (newid unedau gosod a rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'n wag) a dangosydd 36 mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cynllunio (nifer yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd) sy'n is na'r targed yn parhau i gael eu monitro gan y Tîm Arweinyddiaeth i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Mae adran rheoli ariannol y cerdyn sgorio yn rhagweld gorwariant o ran y gyllideb am y flwyddyn wrth i rai cyllidebau ddod dan bwysau cynyddol oherwydd effeithiau'r argyfwng costau byw. Bydd y sefyllfa ariannol yn cael ei hadolygu'n fanwl.  Y gobaith yw bod y data a gyflwynir yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Gwaith am aeddfedrwydd y trafodaethau ynghylch perfformiad o ran cydnabod meysydd sy'n perfformio'n dda a nodi a lliniaru meysydd sydd heb berfformio cystal. Mae'r ffocws yn parhau i fod ar gynnal perfformiad wrth symud ymlaen a sicrhau y gwneir cynnydd a gwelliannau yn y meysydd a nodwyd.

Rhoddodd y Cynghorydd Douglas Fowlie, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adborth o gyfarfod 19 Medi, 2023 y Pwyllgor lle craffwyd ar adroddiad cerdyn sgorio Chwarter 1 2023/24. Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi croesawu'r perfformiad cadarnhaol yn gyffredinol ond gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r dangosyddion lle nodwyd tanberfformiad yn gwella. Gan nodi y rhagwelir gorwariant o ran y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, gofynnodd y Pwyllgor sut mae pwysau cyllidebol yn cael eu lliniaru a'u monitro. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau hefyd am y newidiadau i'r cerdyn sgorio er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Chynllun newydd y Cyngor a'r amserlen ar gyfer eu gweithredu. Lle'r oedd perfformiad wedi gwella, gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am yr hyn a oedd wedi cyfrannu at y perfformiad cadarnhaol ac a oedd unrhyw wersi i'w dysgu a'u rhannu â gwasanaethau eraill. Cadarnhaodd y Cynghorydd Fowlie, yn dilyn ei drafodaethau, fod y Pwyllgor wedi cytuno i argymell adroddiad cerdyn sgorio Chwarter 1 2023/24 a'r mesurau lliniaru hynny i'r Pwyllgor Gwaith.

O ran y dangosyddion oedd heb berfformio'n unol â'r targed, rhoddodd yr Aelodau Portffolio/Pwyllgor Gwaith perthnasol eglurhad o'r mesurau sy'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â materion ac i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud ar gyfer y chwarter nesaf. Rhoddwyd sicrwydd y byddai cyswllt a thrafod rheolaidd gyda Phenaethiaid Gwasanaeth ynghylch meysydd sy'n tanberfformio a chamau unioni. Gwnaed pwynt ynglŷn â chynnal persbectif o ran meysydd a nodwyd yn Goch a phwysleisiwyd pwysigrwydd ystyried y cyd-destun gyda pherfformiad dangosydd 36 – gan ddyfynnu canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd fel esiampl. Er bod y perfformiad ar gyfer dangosydd 36 yn cael ei ddangos fel 0% yn erbyn targed o 65%, mae'r dangosydd yn ymdrin â nifer fach iawn o achosion; dylai'r ddwy apêl ar gyfer y chwarter hwn – na chafodd yr un ohonynt eu gwrthod - gael eu hystyried yng nghyd-destun y tua 300 o geisiadau cynllunio y deliwyd â nhw yn yr un cyfnod.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2023/24 gan nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn edrych arnynt ac yn ymchwilio iddynt er mwyn rheoli a sicrhau gwelliannau pellach ar gyfer y dyfodol fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD / LLESIANT BLYNYDDOL 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn a Thrawsnewid oedd yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad / Lles Blynyddol ar gyfer 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer yr adroddiad sy'n dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau a amlinellwyd gan y Cyngor. Mae'r adroddiad yn

dangos bod 54% o'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Trosiannol, sef y cynllun gwaith manwl ar gyfer 2022/23 wedi'u cwblhau, mae 29% yn parhau i gael eu cwblhau yn 2023/24, mae 13% ar ei hôl hi, ond gyda mesurau lliniaru byddant yn debygol o ddal i fyny ac mae 4% wedi'u canslo. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r camau a gefnogwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn fel rhan o'i ymateb i'r argyfwng costau byw. At ei gilydd, mae'r Cyngor wedi dangos cynnydd da ac ymrwymiad mewn gwahanol feysydd dros y flwyddyn ddiwethaf fel yr adlewyrchir gan yr adroddiad a chofnodir nifer o lwyddiannau arbennig. Dangosodd canlyniadau'r Cerdyn Sgorio am y flwyddyn berfformiad da hefyd gyda 71% o'r dangosyddion yn wyrdd yn erbyn targedau ac 20% o ddangosyddion eraill o fewn 5% i'w targedau. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r nifer fach o ddangosyddion sy'n Ambr neu'n Goch yn ogystal â'r rhai sy'n dangos dirywiad o ran perfformiad o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol yn nodi'r gwaith y bydd y Cyngor yn ei wneud yn ystod 2023/24 i gyflawni dyheadau Cynllun y Cyngor 2023-2028. Rhaid llongyfarch staff y Cyngor nid yn unig am eu gwaith caled ar hyd y flwyddyn ond hefyd am eu hymrwymiad i gyflawni prosiectau a ffrydiau gwaith sy'n ychwanegol at eu dyletswyddau o ddydd i ddydd..

Amlinellodd y Cynghorydd Douglas Fowlie y pwyntiau trafod gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wrth iddo ystyried yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2023. Roeddent yn cynnwys y trefniadau ar gyfer codi ymwybyddiaeth o lwyddiannau'r Cyngor; y mesurau a roddwyd ar waith a gafodd yr effaith gadarnhaol hon ar berfformiad a ph'un ai y gellid dysgu unrhyw wersi o'r broses honno i'w rhannu ar draws y sefydliad; effaith yr argyfwng costau byw ar allu'r Cyngor i wasanaethu pobl Ynys Môn, a'r meysydd perfformiad y mae angen eu blaenoriaethu yn seiliedig ar risg yn ystod 2023/24. Ar ôl ystyried y materion hyn a'r sicrwydd a ddarparwyd gan Swyddogion ac Aelodau Portffolio, penderfynodd y Pwyllgor argymell yr Adroddiad Perfformiad a Lles Blynyddol ar gyfer 2022/23 i'r Pwyllgor Gwaith fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod dros y cyfnod.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod llawer o resymau dros fod yn falch o'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2022/23 a bod yr adroddiad hefyd yn dangos ymrwymiad cryf y Cyngor i weithredu'n unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth ystyried lles trigolion yr Ynys yn awr ac yn y dyfodol wrth wneud penderfyniadau neu gymryd camau gweithredu. Mae llwyddiannau'r Cyngor, fel y'u cofnodwyd yn yr adroddiad, yn fwy arbennig fyth gan iddynt gael eu cyflawni mewn blwyddyn oedd yn llawn heriau nad oedd yn adlewyrchu blwyddyn arferol gyda'r argyfwng costau byw'n datblygu ac ansicrwydd ynghylch cyfraddau llog cynyddol yn effeithio ar bobl a busnesau. Mae cyd-destun y llwyddiannau'n aml yr un mor arwyddocaol â'r llwyddiannau eu hunain. Y nod fydd parhau â'r gwaith da yn 2023/24 gyda chefnogaeth staff y Cyngor, aelodau etholedig, partneriaid, a'r gymuned.

Cytunodd aelodau'r Pwyllgor Gwaith nad oedd 2022/23 yn flwyddyn arferol i'r Cyngor a bod hynny wedi bod yn wir dros y blynyddoedd diwethaf gyda'r pandemig, y pwysau ariannol a'r argyfwng costau byw parhaus oll yn golygu bod heriau sylweddol i'r Cyngor ar ben ei waith o ddydd i ddydd. Wrth gyfeirio at un llwyddiant penodol a oedd wedi golygu bod 80 o gartrefi gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd yn erbyn targed o 50, pwysleisiodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai fod y llwyddiant hwn yn fwy arbennig fyth gan fod yr eiddo hynny wedi dod yn gartrefi i bobl leol a'u teuluoedd.

**Penderfynwyd cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Perfformiad 2022/23 fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod dros y cyfnod hynny ac argymell i'r Cyngor Sir yn ei gyfarfod Hydref 26ain, 2023 y dylid ei fabwysiadu.**

## 7. MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 1 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 oedd yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 1, 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

DRAFT

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad gan ddweud bod y Cyngor, ar 9 Mawrth 2023, wedi gosod cyllideb net ar gyfer 2023/24 gyda gwariant gwasanaeth net o £174.569m i'w ariannu o incwm y Dreth Gyngor, NDR a grantiau cyffredinol yn ogystal â £3.780m o gronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm ar gyfer argyfyngau cyffredinol ac eraill sy'n dod i gyfanswm o £3.109m. Cafodd y gyllideb ar gyfer y Premiwm Treth Cyngor ei chynyddu £0.943m, i £2.893m. Gosodwyd cyllideb gytbwys gyda chynnydd y cytunwyd ar y Dreth Gyngor o 5%. O ran y flwyddyn flaenorol, nid yw'r gyllideb ar gyfer 2023/24 yn cynnwys unrhyw ofynion ar wasanaethau i wneud arbedion. Yn seiliedig ar ddata diwedd Chwarter 1, rhagwelir mai'r sefyllfa ariannol gyffredinol ar gyfer 2023/24 gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor fydd gorwariant o £0.744m sy'n cynrychioli 0.43% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2023/24. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio Cyllid at nifer o heriau sy'n wynebu'r Cyngor ar hyn o bryd nad ydynt yn amlwg ar unwaith o'r ffigur pennawd, mae'r rhain yn cynnwys pwysau cyllidebol yng Ngwasanaethau Plant a Gofal Cymdeithasol Oedolion, ansicrwydd ynghylch y cynnig cyflog ar gyfer 2023/24 nad yw wedi'i setlo eto a'r argyfwng costau byw parhaus sy'n debygol o arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'n anodd rhagweld ffigurau terfynol diwedd y flwyddyn yn gywir yn seiliedig ar ffigurau un chwarter yn unig, ac wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi, bydd effaith yr uchod yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol wrth i bethau ddod yn gliriach.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y gall llawer ddigwydd yn y naw mis hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol a fydd yn effeithio ar y gyllideb. Dywedodd ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn lleihau'r gorwariant ac yn ceisio aros o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn diogelu'r lefel bresennol o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a'r balansau cyffredinol. Bydd hyn yn rhoi mwy o opsiynau i'r Cyngor pan ddaw'n amser pennu cyllideb 2024/25. Ar ôl cael trafodaethau ar lefel uchel ynghylch a oes angen unrhyw gamau unioni i leihau gwariant ac a ddylid rhoi unrhyw gyfarwyddyd i wasanaethau i'r perwyl hwnnw, y casgliad yw nad yw hynny'n angenrheidiol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae trafodaethau'n parhau gyda Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Oedolion ynglŷn â rheoli gwariant yn y gwasanaethau hynny gan mai nhw yw'r gwasanaethau sydd dan bwysau mwyaf ac sy'n achosi'r gorwariant cyffredinol. Mae'r opsiynau ar gyfer lleihau costau yn gyfyngedig oherwydd bod y rhan fwyaf o gostau'r Cyngor yn gysylltiedig â chontractau a rhwymedigaethau y disgwylir i'r Cyngor eu hanrhydeddu ac a fyddai'n anodd eu newid yn ystod y flwyddyn. Bydd y rheolwyr yn parhau i adolygu'r sefyllfa ariannol yn fanwl yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol a bydd y Gwasanaeth Cyllid yn adrodd yn fisol i Reolwyr Gwasanaeth o hyn ymlaen.

Cydnabu aelodau'r Pwyllgor Gwaith fod y sefyllfa ariannol yn heriol ar hyn o bryd a bod disgwyl heriau pellach wrth bennu cyllideb 2024/25.

**Penderfynwyd nodi'r canlynol –**

- **Y sefyllfa a nodir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir am 2023/24;**
- **Crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn am 2023/24, y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad.**
- **Monitro costau asiantaethau ac ymgynghoriadau am 2023/24 yn Atodiadau CH a D.**

## 8. MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 1 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol cyllideb gyfalaf y Cyngor ar ddiwedd Chwarter 1, 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad gan gadarnhau mai cyfanswm y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/24 oedd £58.141m sy'n cynnwys y CRT, llithriad o 2022/23, cynlluniau ychwanegol a ariannwyd gan grantiau a ychwanegwyd at y rhaglen a rhai newidiadau cyllido. Er mai'r gwariant a broffiliwyd hyd at 30 Mehefin 2023 oedd £7.177m, y gwariant gwirioneddol yw £6.255m neu £7.016m pan fydd gwariant a ymrwymwyd gwerth £761k yn cael ei ystyried. Y rheswm am hyn yw bod nifer o gynlluniau cyfalaf yn gwario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mewn achosion lle mae llithriad yn digwydd, bydd y cyllid hefyd yn llithro i'r flwyddyn ariannol nesaf ac ni fydd unrhyw gyllid yn cael ei golli.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 nifer y cynlluniau cyfalaf sydd bellach yn cael eu hariannu gan grantiau fel y nodir yn Atodiad C i'r adroddiad. Gan fod cyllid cyfalaf craidd wedi lleihau mewn termau real, sy'n golygu ei bod yn fwy o her fyth buddsoddi yn asedau presennol y Cyngor, mae'r Cyngor yn dibynnu fwyfwy ar grantiau i ariannu ei weithgareddau cyfalaf.

Tra bod aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cydnabod gwerth grantiau i gefnogi prosiectau cyfalaf y Cyngor, roeddent hefyd yn cydnabod y gall grantiau hefyd greu eu heriau eu hunain o ran amseru, a bod amodau ynghlwm wrthynt sy'n clymu gwariant i feysydd nad ydynt efallai'n flaenoriaeth i'r Cyngor ac yn aml yn cael eu dyrannu yn gystadleuol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, Aelod Portffolio Addysg a'r Iaith Gymraeg at faterion diweddar gyda choncrit Raac mewn ysgolion sy'n destun pryder o ran gwariant cyfalaf. Gofynnodd a fyddai unrhyw gyllid ychwanegol ar gael i helpu gyda'r gwaith adfer.

Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr nad oes cadarnhad swyddogol o gyllid ychwanegol wedi'i dderbyn ond bod trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn parhau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y gwaith i ddelio â mater concrit Racc wedi codi'n annisgwyl ac felly nad oedd wedi'i gynnwys yn y rhaglen sy'n golygu ei fod yn defnyddio staff a fyddai fel arall yn gweithio ar gynlluniau a raglennwyd gan y Cyngor. Mae capasiti mewnol i gyflawni'r rhaglen gyfalaf yn ffactor o ran llithriant, yn enwedig pan fydd materion annisgwyl yn codi a bod angen delio â nhw gan arwain at ohirio'r broses o fwrw ymlaen â phrosiectau cyfalaf a gymeradwywyd.

Manteisiodd y Cynghorydd Robin Williams ar y cyfle i ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r ymateb i'r mater concrit Raac mewn dwy o ysgolion yr Ynys ac am addasu i sicrhau bod addysg yn dal i gael ei ddarparu mewn amgylchiadau anodd.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2023/24 yn ystod chwarter 1.**
- **Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol sy'n dod i gyfanswm o £5.442m i'r rhaglen gyfalaf a diwygiadau i gyllid yn unol ag Atodiad C yr adroddiad, a fydd yn arwain at gyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £58.141m ar gyfer 2023/24.**

DRAFT

## 9. MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 1 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y cyfrif Refeniw Tai ar gyfer Chwarter 1 2023/24 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid yr adroddiad sy'n amlinellu perfformiad refeniw a chyllideb gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai am y cyfnod a'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 1 Mawrth 2024. Mae'r adroddiad yn dangos y gyllideb refeniw sydd â gwarged a gynlluniwyd o £8,044k. Y gyllideb cyfalaf gros ar gyfer 2023/24 yw £19,988k. Mae grantiau, a chyllid arall gwerth £6,898k, wedi gostwng y gyllideb net i £13,090k. Roedd cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg a gynlluniwyd o £5,046k, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT. Mae cyllideb refeniw CRT yn dangos gorwariant o £8k o'i gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd fel y manylir yn Atodiad A i'r adroddiad. Mae gwariant cyfalaf £25k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r tanwariant hwn a ragwelir yn golygu gostyngiad o'r un swm yn y swm sydd i'w gyllido o'r cyfrif refeniw CRT. Mae'r balans ar gael wedyn i gyllido prosiectau sydd wedi eu gohirio tan y flwyddyn nesaf. Y diffyg a ragwelir gan gyfuno refeniw a chyfalaf bellach yw £4,278k, sydd £768 yn llai na'r gyllideb.

Balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT oedd £12,107k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu defnyddio £5,046k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y rhagolygon diwygiedig a nodir uchod yn defnyddio £4,278k yn unig. Bydd hyn yn rhoi balans o £7,829k yn y gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi'i glustnodi ar gyfer dibenion penodol, felly, nid yw ond ar gael i gyllido gwariant y CRT yn y dyfodol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y gwarged ar gyllideb refeniw y CRT yn cael ei ail-fuddsoddi i gynnal y stoc tai presennol i Safonau Ansawdd Tai Cymru ac i ddatblygu stoc tai newydd. Mae Atodiad C i'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r gyllideb ddatblygu newydd ar gyfer 2023/24 a chynlluniau ar gyfer tai newydd ar draws yr Ynys y bwriedir iddi eu hariannu.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn falch o nodi'r cynlluniau a gynlluniwyd/oedd ar waith a restrir yn Atodiad C sy'n barhad o ddull y Cyngor o gynyddu'r stoc tai ar yr Ynys o flwyddyn i flwyddyn. Cyfeiriodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Ieuenctid a Thai at y chwe uned ychwanegol ym Miwmares ar y rhestr yn Atodiad C a oedd bellach wedi'u cwblhau a'u neilltuo i unigolion lleol - roedd wedi ymweld â nhw'n ddiweddar. Canmolodd y fflatiau gan ddweud eu bod o ansawdd uchel ac yn gaffaeliad gwerthfawr i'r dref yn ogystal â bod yn welliant amlwg o gymharu â'r safle fel yr oedd cynt.

**Penderfynwyd nodi'r canlynol –**

- **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 1 2023/24.**
- **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2023/24.**

## 10. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2024/25 I 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 oedd yn cynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 204/25 i 2025/26 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams yr adroddiad oedd yn nodi'r adnoddau tebygol y bydd eu hangen ar y Cyngor ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf ynghyd â manylion am sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r adnoddau hynny â'r cyllid sydd ar gael.

DRAFT

Tynnodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 sylw at wybodaeth yn yr adroddiad. Roedd yn cynnwys sefyllfa ariannol gyfredol y Cyngor o ran y gyllideb a osodwyd ym mis Mawrth 2023 a sut y cafodd ei hariannu, cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol yn dyddio'n ôl i 2018/19 o ran yr amrywiad yn y bwlch cyllido dros y cyfnod o chwe blynedd, y cyd-destun ehangach mewn perthynas â'r rhagolygon economaidd cenedlaethol a'r gyllideb a'r newidiadau yng nghyllid Llywodraeth Cymru dros y degawd diwethaf. Nodwyd bod pwysau ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn golygu bod y posibilrwydd i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol yn ystod y ddwy flynedd nesaf yn gyfyngedig ac ar gyfer pob gostyngiad o 1% yng nghyllid Llywodraeth Cymru byddai'n rhaid i'r Dreth Gyngor gynyddu 3 i 4% i wneud iawn am y gwahaniaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi setliad cyllid dangosol o 3% ar gyfer llywodraeth leol Cymru gyfan ar gyfer 2024/25 ond nid oes unrhyw wybodaeth ar gyfer 2025/26. Mae hyn yn seiliedig ar adolygiad gwariant Llywodraeth y DU yn 2021 nad oedd yn cynnwys y cynnydd sylweddol mewn chwyddiant a welwyd yn 2022 a 2023.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022/23 nododd y Cyngor danwariant net o £1.212m (2.37%) gyda'r holl wasanaethau ac eithrio Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion a Thai a nododd danwariant yn erbyn eu cyllideb. Arweiniodd hyn at gynnydd ym malansau cyffredinol y Cyngor i £13.966m. Gan fod £3.789m o'r cronfeydd wrth gefn hyn wedi'u neilltuo fel cyllid ar gyfer cyllideb 2023/24, lefel y cronfeydd wrth gefn wrth symud ymlaen yw £10.186m sy'n cyfateb i 5.83% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2023/24. Mae hyn yn cymharu â'r ffigur targed o £8.7m (5%) a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith.

Aeth y Swyddog Adran 151 drwy adran 5 o'r adroddiad gydag Aelodau'r Pwyllgor Gwaith. Roedd yr adran yn nodi'n fanwl y meysydd a ystyrir fel y prif bwysau cyllidebol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod cyfnod y Cynllun a'u heffaith bosibl ar gyllideb y Cyngor wrth symud ymlaen. Mae'r rhain yn cynnwys codiadau cyflog, costau ynni, y galw ar wasanaethau Plant ac Oedolion, cynnydd mewn digartrefedd a chwyddiant cyffredinol yn ogystal â nifer o benawdau eraill lle mae pwysau ar ffurf costau cynyddol, ymrwymiadau a/neu angen am wasanaethau. Gan ystyried yr holl faterion a ddisgrifir yn adran 5 a sefyllfa incwm y Cyngor y cyfeirir ati yn adran 6 gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau a nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad, amcangyfrifir y bydd cyllideb gwariant refeniw net y Cyngor yn cynyddu £13.072m yn 2024/25 (i £187.641m) a £5.368m yn 2025/26 (i £193.082m), Cynnydd o 10.6% dros y cyfnod o ddwy flynedd.

Mae Tabl 3 yr adroddiad yn dangos yr incwm ychwanegol y byddai newidiadau amrywiol mewn Cyllid Allanol Cyfun (AEF) gan Lywodraeth Cymru a chynnydd yn y Dreth Gyngor yn eu cael ar gyllid y Cyngor gan gymryd nad oes unrhyw newid yn sylfaen y Dreth Gyngor ac y byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn sgil cynnydd ym mhremiwm y Dreth Gyngor yn cael ei ddefnyddio i gynyddu cyllidebau ar brosiectau i helpu i ddarparu tai fforddiadwy. Er mwyn cyllido'r gofyniad cyllidebol ychwanegol - £13.07m yn ôl yr amcangyfrif - ynghyd â gwneud yn iawn am y £3.78m o gronfeydd wrth gefn a ddefnyddir i gydbwyso'r gyllideb yn 2023/24 gyda chyllid parhaol, byddai angen i'r AEF godi 7% ac i'r Dreth Gyngor gynyddu dros 20% i gynhyrchu digon o gyllid. Os bydd yr AEF ond yn codi 3% fel mae'r arwyddion yn awgrymu, bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Dreth y Cyngor godi tua 30% er mwyn cynhyrchu digon o gyllid parhaol i fodloni gofyniad cyllideb net o £187.64m. Pe bai'r AEF yn codi 3% a'r Dreth Gyngor 5%, y cyllid ychwanegol sy'n cael ei gynhyrchu yw £6.11m ar ôl addasu ar gyfer y cynnydd mewn CTRS gan adael bwlch o £6.96m. Fodd bynnag, rhaid ystyried y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn 2023/24 ac, os na ddefnyddir cronfeydd wrth gefn yn 2024/25 yna mae'r diffyg cyllid yn cynyddu £3.78m i £10.74m.

Mae Adran 10 yr adroddiad yn trafod ffyrdd posibl o bontio'r bwlch cyllido. Er bod gan y Cyngor rywfaint o allu i ddefnyddio balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn i leihau'r bwlch, mae risgiau ynghlwm â'r opsiwn hwn gan nad yw'r arian a gedwir wrth gefn yn

ffynhonnell incwm gylchol ac nid yw defnyddio cronfeydd wrth gefn yn mynd i'r afael â'r angen i gau'r bwlch cyllido yn y tymor hir. Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn hefyd yn dileu'r cronfeydd wrth gefn a gedwir gan y Cyngor ac yn gwanhau ei sefyllfa ariannol a'i wytnwch i ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl. O ystyried ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys os nad yw lefel y cyllid (gan Lywodraeth Cymru, y Dreth Gyngor a chronfeydd wrth gefn a balansau) yn ddigonol i dalu cost darparu gwasanaethau yn y flwyddyn, yna, yr unig opsiwn yw lleihau'r gyllideb gwariant net i lefel y cyllid sydd ar gael. Gan gymryd bod y bwlch cyllido yn £10m, yna mae hynny'n cyfateb i arbedion refeniw o 5.7% o gyllideb gwariant net 2023/24.

Mae paragraff 10.9 o'r adroddiad yn edrych ymlaen at 2025/26 lle amcangyfrifir bod diffyg o £11.51m yn y gyllideb. Mae £9.93m o'r ffigwr hwn yn ymwneud â diffyg yn y gyllideb a ddygwyd ymlaen o 2024/25, gan adael diffyg o £1.58m yn ychwanegol yng nghyllideb 2025/26.

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod y Cyngor yn wynebu ei sefyllfa ariannol fwyaf heriol ac ansicr ar hyn o bryd. Bydd yn rhaid iddo wneud penderfyniadau anodd er mwyn gosod cyllideb gytbwys yn 2024/25 a /26.

Wrth nodi'r sefyllfa fel y'i hadroddwyd roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod yr heriau gwirioneddol sydd o'n blaenau, gan gydnabod bod rhai dewisiadau a phenderfyniadau anodd i'w gwneud. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn wynebu heriau tebyg, neu hyd yn oed rai mwy. Y gobaith yw y bydd setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 yn well na'r disgwyl.

**Penderfynwyd nodi cynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 – 2025/26 a chymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed.**

## 11. LLYTHYR BLYNYDDOL GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR GYFER 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro oedd yn cynnwys y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r Llythyr yn crynhoi perfformiad y Cyngor mewn perthynas â'r cwynion gwasanaeth a dderbyniwyd a'u canlyniadau yn ystod y flwyddyn dan sylw yn ogystal ag achosion yn ymwneud ag ymyrraeth yr Ombwdsmon. Mae adran ar gwynion a wnaed o dan y Cod Ymddygiad i Aelodau hefyd wedi'i chynnwys.

Cyflwynwyd y negeseuon pennawd fel yr oeddent wedi'u cynnwys yn y Llythyr Blynyddol gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, sef 25 o gwynion gwasanaeth i OGCC yn erbyn y Cyngor gostyngiad o 29 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r rheini, nid oedd angen i Swyddfa'r Ombwdsmon ymchwilio i 20 ohonynt. Ymdriniwyd â'r 5 arall trwy ddatrysiad cynnar. Gwnaed un gŵyn Cod Ymddygiad yn erbyn aelod o'r Cyngor Sir ond ni ymchwiliwyd iddi, a gwnaed un gŵyn hefyd yn erbyn Cynghorydd Tref / Cymuned yn ystod 2022/23 ond cafodd ei datrys cyn ymchwilio iddi. Yn ei Llythyr Blynyddol mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gofyn i'r Cyngor ddwyn y llythyr i sylw'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Gwaith, gan barhau i ymwneud â gwaith safonau cwynion OGCC, rhoi hyfforddiant i staff, gweithredu'r polisi enghreifftiol a darparu data cwynion cywir ac amserol. Rhoddodd y Swyddog Monitro sicrwydd bod y camau hynny ar y gweill a chadarnhaodd fod y Cyngor yn darparu data cwynion chwarterol yn unol â'r amserlen a bennir gan yr Asiantaeth Safonau Cwynion. Bydd cadarnhad o'r uchod yn cael ei anfon at OGCC yn dilyn y cyfarfod hwn.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2022/23**

DRAFT

- **Cefnogi’r dasg o weithredu Polisi Enghreifftiol OGCC**
- **Cefnogi’r dasg o ddatblygu strategaeth hyfforddi**
- **Cefnogi’r dasg o ddatblygu asesiad anghenion hyfforddi a chyflwyno hyfforddiant addas yn ôl yr angen**
- **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC er mwyn cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i’w Llythyr Blynyddol ac yn cytuno i weithredu’r elfennau y cyfeirir atynt yn ei Llythyr Blynyddol**
- **Rhoi sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion a thrwy hynny roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr Aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor.**

## 12. YMATEB CYNGOR SIR YNYS MÔN I’R ADOLYGIAD O DDARPARIAETH FRYS - GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr oedd yn cynnwys ymateb y Cyngor i Wasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru – Adolygiad o Ddarpariaeth Frys i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Cafodd dogfennau a gyhoeddwyd fel rhan o'r ymgynghoriad eu cynnwys yn Atodiad B i'r adroddiad ynghyd ag adborth y Cyngor i'r opsiynau a gyflwynwyd o dan Atodiad A.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a chyfeiriodd at bwysigrwydd yr ymgynghoriad o ystyried y gallai ei ganlyniad ddylanwadu ar natur y gwasanaeth ar yr Ynys, yn benodol amseroedd ymateb brys. Mae'r rhan fwyaf o gyllid Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn deillio o ardoll sy'n cael ei osod yn flynyddol ac sydd wedyn yn cael ei rannu rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru ar sail poblogaeth. Daw cyfraniad y Cyngor i'r ardoll o'i gyllideb refeniw net ond nid yw manylion yr ardoll wedi'u cynnwys ar ddatganiad y Dreth Gyngor. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y pwysau ariannol y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu oddi tanynt ar hyn o bryd ac y gallai'r ymgynghoriad fod yn arwydd o bethau i ddod o ran y wasgfa ar gyllideb y Gwasanaeth Tân a’r posibilrwydd o ad-drefnu’r ddarpariaeth a allai olygu bod rhai ardaloedd yn talu mwy am lai. Safbwynt y Cyngor yw ei fod yn dymuno derbyn y gwasanaeth gorau posibl heb unrhyw gynnydd mewn costau os yw’n bosibl, ac mae’n gwrthwynebu unrhyw ostyngiad yn lefel y gwasanaeth ar yr Ynys. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i weld bod gwasanaethau rheng flaen yn cael eu diogelu a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i nodi arbedion effeithlonrwydd mewn meysydd eraill o fewn strwythur gweithredu ac arferion gwaith Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru e.e. costau canolog a hyfforddiant.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) fod y ddogfen ymateb ddrafft yn Atodiad A yn crynhoi safbwynt y Cyngor a'r prif bryderon a godwyd. Mae'r Prif Swyddog Tân wedi darparu ymateb i sawl cwestiwn ac mae'r ddogfen wedi'i diwygio'n unol â hynny.

Dywedodd y Cynghorwyr, Carwyn Jones a Gary Pritchard, eu bod yn cefnogi gwrthwynebiad y Cyngor i Opsiwn 3 a fyddai'n golygu cau un Orsaf Ar Alw ar yr Ynys, sef yr un ym Miwmares. Mynegwyd eu pryderon am yr effaith ar ardal dde-ddwyrain yr Ynys y byddai gweithredu'r opsiwn hwn yn ei chael o ran amseroedd ymateb ynghyd â diogelwch cymunedau’r ardal yn sgil hynny. Byddai’r ddarpariaeth agosaf o bosibl yn gorfod dod o’r ochr draw i’r Fenai a oedd yn golygu cymhlethdod ychwanegol pe bai tagfeydd ar y pontydd dros y Fenai. Mae hyn yn cynrychioli lefel is o wasanaeth sy'n cynyddu'r bygythiad i fywyd. Gwnaed pwyntiau pellach am yr angen am fwy o dryloywder wrth adrodd am gostau'r Gwasanaeth Tân ac Achub gan gynnwys costau canolog a bod gwybodaeth am ardoll y Gwasanaeth yn cael ei chynnwys ar filiau'r Dreth Gyngor er gwybodaeth y cyhoedd a'r trethdalwr. Gwnaed awgrym y byddai adolygiad lleol o'r gwasanaeth yn ddefnyddiol i weld p’un ai a yw'r Cyngor yn cael gwerth am arian am ei gyfraniad. Cadarnhaodd y Cadeirydd ac Aelod Portffolio Cyllid ei fod yn fwy na £4m y flwyddyn. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr hefyd at



DRAFT

y ddarpariaeth yn Llu Awyr Brenhinol y Fali a allai fod yn ffynhonnell gefnogaeth pe bai angen, er mai darpariaeth ar gyfer safle Llu Awyr Brenhinol y Fali oedd honno. Cytunwyd bod y sylwadau hynny'n cael eu hychwanegu yn yr ymateb.

Adroddodd y Cynghorydd Gwilym O. Jones, Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am ymateb y Pwyllgor Sgriwtini i'r ymgynghoriad a'r ymateb drafft. Cadarnhaodd fod y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2023, wedi derbyn yr ymateb drafft a'i fod wedi argymell yr ymateb i'r Pwyllgor Gwaith fel sail ar gyfer ymateb terfynol yn amodol ar dynnu sylw'r Tîm Arweinyddiaeth at y wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd gan y Prif Swyddog Tân; yr angen i adolygu costau canolog a gweinyddol y Gwasanaeth a chynnwys mewnbwn gan Swyddogion Adran 151 fel sail ar gyfer gosod yr ardoll yn y dyfodol; gwahodd Llywodraeth Cymru i ystyried priodoldeb cynnwys manylion yr ardoll ar ddatganiadau'r Dreth Gyngor; y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r tri opsiwn arfaethedig a goblygiadau Opsiwn 3 yng nghyd-destun effeithiau'r tywydd, gwytnwch y pontydd a phoblogaeth ynysig.

**Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo'r ymateb drafft Cyngor Sir Ynys Môn i'r Adolygiad Darpariaeth Brys – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Atodiad A yr adroddiad gan gynnwys sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r ddarpariaeth yn Llu Awyr Brenhinol Y Fali a'r angen am adolygiad lleol o'r gwasanaeth a ddarperir.**.

## 13. GWELLA CANOL TREFI YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ar ganlyniad y broses ymgynghori ar y cynllun strategol ar gyfer gwella Canol Tref Ynys Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, ynghyd â Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn.

Cyflwynodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yr adroddiad gan ddweud bod y strategaeth ddrafft wedi'i chymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Ebrill 2023. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd proses o ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2023 i gasglu barn a chael cefnogaeth i'r strategaeth arfaethedig. Mae'r strategaeth derfynol bellach yn cael ei chyflwyno i'w mabwysiadu ac ystyriwyd y sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymarfer ymgynghori. Yn gyffredinol, cydnabyddir pwysigrwydd canol trefi yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol ac felly mae'r strategaeth yn cynnig camau i gefnogi canol trefi i ddod yn ganolfannau hyfyw a ffyniannus. Ystyrir bod y camau hyn yn briodol ac yn gyraeddadwy ac yn ymateb i bryderon lleol gan gofio hefyd bod rhai materion y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Er y bydd gwireddu'r strategaeth yn llawn yn dibynnu a fydd cyllid allanol ar gael ai peidio, y ffordd orau ymlaen at gyflawni ei hamcanion fydd drwy weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol a phobl leol.

Rhoddodd y Rheolwr Datblygu Economaidd drosolwg o'r ymateb i'r ymgynghoriad, sef cyfanswm o 84. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymateb fel unigolion ond cafwyd sawl ymateb gan gynghorau tref, cynghorwyr sir a sefydliadau lleol. Roedd nifer yr ymatebion gan fusnesau lleol yn isel ond roedd yn cynnwys un gan Ffederasiwn y Busnesau Bach. Cafwyd trawstoriad da o ran diddordeb daearyddol a chofrestrwyd lefel uchel o gytundeb gyda'r cynigion allweddol yn y ddogfen. Roedd 85% o'r ymatebion yn cytuno bod angen cynllun strategol ac roedd 85% yn cytuno â nod arfaethedig y cynllun strategol cyffredinol. Os caiff y strategaeth ei chymeradwyo, bydd yn sail ar gyfer cynlluniau lleol yr ymgynghorir arnynt yn fanwl yn lleol a bydd rhai o awgrymiadau ar gyfer trefi penodol a gyflwynir fel rhan o'r ymgynghoriad ar y strategaeth yn cael eu bwydo i'r broses cynllunio creu lleoedd lleol. Ceisir cyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a fyddai'n darparu'r adnoddau i gyflawni ail gam y broses y flwyddyn nesaf.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn bwysig nodi bod y strategaeth yn ddogfen anstatudol ac o ystyried y pwysau presennol onid teg yw awgrymu bod y gwaith o baratoi adroddiadau

DRAFT

yn gymesur a bod adnoddau'n cael eu defnyddio lle byddant yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf h.y. drwy ganolbwyntio ar gydweithio lleol ac ar wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y trefi eu hunain.

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cydnabod yr angen am strategaeth i fynd i'r afael â’r newid yn anghenion a chymeriad canol trefi ar Ynys Môn ac i nodi cyfleoedd i wella a gwneud y defnydd gorau ohonynt.

**Penderfynwyd cymeradwyo Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn.**

## 14. GWAHARDD Y CYHOEDD A’R WASG

**O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, penderfynwyd gwahardd y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y golygai ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12A o’r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd a gyflwynwyd.”**

## 15. PRYNU TIR YN ORFODOL – TIR CYFLOGAETH YN LLANGEFNI

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i Swyddogion ddechrau paratoadau i brynu tir yn orfodol o dan adran 226 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i'w ystyried.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r amgylchiadau a'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r bwriad i brynu tir yn orfodol a gofynnodd am awdurdod dirprwyedig ar gyfer Swyddogion mewn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor a'r aelod perthnasol o’r Pwyllgor Gwaith i ddechrau paratoadau a fyddai'n galluogi'r Cyngor yn ddiweddarach i ymgymryd â'r broses Gorchymyn Prynu Gorfodol (CPO) os na ellir sicrhau’r tir dan sylw drwy gytundeb. Darparwyd gwybodaeth ategol yn ymwneud â phwerau CPO y Cyngor yn Atodiad B i'r adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Gwaith am y broses CPO, yr amserlenni, a'r trefniadau cyllido arfaethedig a'r ystyriaethau ariannol yn yr achos hwn. Amlinellwyd y rhesymau pam fod y Cyngor yn ystyried defnyddio ei bwerau CPO o dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd, a darparwyd cyfiawnhad. Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor Gwaith ynghylch risgiau posibl i'r Cyngor, rhoddodd Swyddogion sicrwydd ynghylch y mesurau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu a sicrhau safbwynt y Cyngor yn y mater hwn.

**Penderfynwyd awdurdodi Swyddogion i gychwyn paratoadau i brynu tir yn orfodol o dan Adran 226 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel yr amlinellir yn yr adroddiad (yn cynnwys cwblhau ymarfer cyfeirio tir ffurfiol o dan Ddeddf Caffael Tir 1981 a/neu unrhyw statud berthnasol neu gysylltiedig arall ar y cyfan o’r ardal sydd ei hangen i wireddu’r datblygiad arfaethedig) ac i fwrw ymlaen yn unol â’r argymhellion ynddo.**

**Cynghorydd Robin Williams**
**Cadeirydd**

DRAFT